

RHYWEDD A PHROSESAU GWLEIDYDDOL YNG NGHYD-DESTUN DATGANOLI

CANFYDDIADAU YMCHWIL

Ar yr un pryd â datganoli grym i'r Alban a Chymru, etholwyd niferoedd nas gwelwyd o'r blaen o fenywod yn gynrychiolwyr gwleidyddol. Mae'r ymchwil hon yn archwilio a yw cydbwysedd rhyw o ran y cynrychiolwyr gwleidyddol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru wedi dylanwadu ar y diwylliant gwleidyddol a datblygu polisïau, ac ar y berthynas rhwng llywodraeth leol, y Cynulliad Cenedlaethol a chyrrff trydydd sector.

Diwylliant gwleidyddol y Cynulliad Cenedlaethol

Un o brif nodweddion y Cynulliad Cenedlaethol fel sefydliad gwleidyddol cynrychioliadol yw ei *gydraddoldeb o ran rhyw*. Yn ystod y Cynulliad cyntaf, a etholwyd ym 1999, roedd 40% o'r seddi wedi'u dal gan fenywod; yn 2003, cododd hyn i 50% ac, ers mis Mai 2007, mae 47% o'r ACau wedi bod yn fenywod. Mae'r Cynulliad yn *sefydliad gwleidyddol newydd* sy'n cael ei gysylltu ag arddull gwleidyddol â chonsensws, gwleidyddiaeth gynhwysol, a threfniadau gweithio sy'n cydnabod cyfrifoldebau gofalu'r rhai sy'n gweithio ynddo. Mae ei fframwaith cyfreithiol yn ei orfodi i ystyried *cyfle cyfartal* yn ei holl fusnes.

Roedd canfyddiad cyffredinol ymysg ACau fod cydraddoldeb o ran rhyw a'r ffaith fod y Cynulliad yn sefydliad newydd yn cael effaith ar ei *ddiwylliant*. Yng ngeiriau AM Llafur gwrywaidd:

Mae'n gwneud gwahaniaeth i'r diwylliant y mae cyfarfodydd grŵp yn cael eu cynnal ynddo, fel rydw i wedi dweud rydyn ni'n anghytuno'n ffyrnig mewn cyfarfodydd grŵp ond mae hyn yn digwydd heb unrhyw sôn am godi lleisiau a churo byrddau.

Mae gan Gynulliad Cymru *arddull wleidyddol* nodedig sy'n cael ei diffinio'n wahanol o'i chymharu ag arddull wleidyddol wrthwynebol San Steffan. Yn y dyddiau cynnar nodweddid y Cynulliad gan arddull wleidyddol â chonsensws ond mae nifer o ACau o'r farn fod arddull â llai o gonsensws yn angenrheidiol er mwyn datblygu gwrthblaid effeithiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Nid yw hyn o

angenrheidrwydd yn awgrymu gwleidyddiaeth fwy gwrthdrawol gan fod y rhan fwyaf o ACau yn ymbellhau oddi wrth yr ymagweddu ymosodol, 'macho' a gysylltir fel arfer â gwleidyddiaeth wrthwynebol.

Gwelir bod cydbwysedd rhyw yn cael effaith ar arddull y rhyngweithio rhwng gwleidyddion, ar draws pleidiau ac o fewn pleidiau. Yn ôl nifer o ACau, mae menywod yn tueddu i wleidyddiaeth wahanol i ddynion ac yn aml disgrifir bod hyn yn dibynnu'n fwy ar gonsensws nag arddull wrthwynebol. Fodd bynnag, byddai'n annoeth priodoli arddull Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unig i gydraddoldeb rhyw. Mae rhai dynion iau yn gwleidyddiaeth mewn ffordd sydd wedi'i benyweiddio'n fwy na dynion hŷn, yn union fel mae y rhai menywod yn mabwysiadu arddull wleidyddol wedi'i gwryweiddio. Ac mae gwahaniaethau rhwng pleidiau o ran arddull gyda'r Ceidwadwyr yn tueddu i fod yn fwyaf gwrthwynebol.

Roedd ACau yn cytuno bod menywod yn cael effaith ar y math o *faterion polisi* a oedd yn cael eu trafod. Roedd mwy o bwyslais yn cael ei roi ar yr hyn y cyfeiriodd un AC ato fel 'meysydd heb fod yn draddodiadol'.

Mae trais yn y cartref ar yr agenda, mae cyflog cyfartal ar yr agenda a'r holl fath yna faterion gwirioneddol bwysig na fyddai yno mae'n debyg pe na bai nifer mor uchel fenywod.

Mae'r *amgylchedd gweithio* a'r oriau gwaith yn amlwg yn gyfeillgar i deuluoedd. Gwelwyd yn gyffredinol fod hyn yn bwysig yn symbolaidd. Fodd bynnag, ym marn y rhan fwyaf o ACau, nid oedd oriau cyfeillgar i deuluoedd o bwysigrwydd ymarferol mawr. Mewn gwirionedd, wfftiodd rhai ACau y syniad fod y Cynulliad yn gyfeillgar i deuluoedd, yn enwedig yr aelodau hynny nad ydynt yn byw yng Nghaerdydd lle mae'r Cynulliad, neu yn y cyffiniau. Fodd bynnag, pan gafwyd bygythiad gan arweinwyr plaid (gwrywaidd) a rheolwyr busnes i

danseilio'r ymrwymiad i weithio cyfeillgar i deuluoedd, sicrhaodd gwrthryfel gan ACau o fenywod fod y polisi'n aros heb ei newid. Mae gweithio cyfeillgar i deuluoedd yn cynrychioli cydnabyddiaeth y gall fod gan gynrychiolwyr gwleidyddol gyfrifoldebau teulu a gofal plant ac yn arwydd o ymbellhau oddi wrth ddiwylliannau gwleidyddol mwy gwyrweiddiol.

Mae lefel eithaf uchel o ymwybyddiaeth rhywedd ymhlith ACau, er bod yn hyn yn amrywio o blaid i blaid. Siaradant am y ffordd y caiff materion eu rhyweiddio a gwelant gydraddoldeb yn egwyddor bwysig sy'n rheoli gwaith y Cynulliad. Mae nifer o'r menywod a rhai o'r dynion yn diffinio eu hunain fel ffeministiaid ac o blaid gweithredu cadarnhaol i wella lefelau'r gynrychiolaeth gan fenywod.

Mae pob AC fwy neu lai'n cysylltu'r diwylliant, y ffordd y cynhelir dadleuon, yr iaith a ddefnyddir a'r polisiâu a flaenoriaethir, i gydbwysedd rhyw'r Cynulliad ac i'r ffaith ei fod yn sefydliad newydd.

Llywodraeth leol a rhywedd

Mae cyfansoddiad llywodraeth leol o ran rhyw yn cyferbynnu ag eiddo'r Cynulliad Cenedlaethol. Ar ôl etholiadau lleol 2004, 22% oedd cyfran y cynghorwyr yng Nghymru a oedd yn fenywod. Ers etholiadau 2008 mae hyn wedi codi i 25%. Ar lefel leol mae canran is o gynghorwyr benywaidd yn gyffredinol, ond mae hyn yn celu cryn amrywiaeth. Ar adeg ein hymchwil, roedd gan Gaerdydd 37% o gynghorwyr benywaidd, 31% gan Abertawe a 30% gan Fro Morgannwg o'u cymharu â Blaenau Gwent 9.5%, Ynys Môn 5% a Merthyr Tudful 3%. Mae cynrychiolaeth gan fenywod mewn llywodraeth leol yn is nag yn y Cynulliad ac, mewn nifer o achosion, mae menywod mewn lleiafrif bach. Yn ogystal mae gwahaniaeth oedran gyda 42.4% o gynghorwyr wedi ymddeol. Dim ond ychydig iawn o gynghorwyr sydd o leiafrifoedd ethnig.

Yn ôl ACau, mae *diwylliant* llywodraeth leol yn cyferbynnu ag eiddo'r Cynulliad Cenedlaethol. Fel y dywedodd un o'r ACau benywaidd:

Wel, mae'n rhaid i chi gofio fy mod yn aelod o gyngor yn y Cymoedd ac roedd wedi cael ei reoli gan y Blaid Lafur ers 1925, dynion hyn oedd yno'n bennaf, a'r rheini'n credu mai yn y cartref roedd lle menyw, a hefyd fod

ganddyn nhw hawl i redeg popeth yn lleol.

Roedd barn ymhlith cynghorwyr mai dynion oedd yn tra-arglwyddiaethu yn niwylliant llywodraeth leol a bod rhaid i fenywod ymddwyn fel dynion er mwyn cydweddu â'r diwylliant hwnnw. Yng ngeiriau un cynghorydd benywaidd:

Mae'n rhaid i fenywod ym myd gwleidyddiaeth fod yn galed iawn, iawn ac yn wydn iawn ac

yn ymwithgar iawn felly efallai bod gyda ni rai nodweddion i'n personoliaeth y byddech chi'n eu cysylltu â, â dyn ... ym myd gwleidyddiaeth, allwch chi ddim bod yn fath o berson sy'n swil ac sy'n ildio gan ryw fath o dderbyn pethau, mae'n rhaid i chi fod ychydig bach yn galed a phenderfynol ac, wyddoch chi, weithiau dw i'n meddwl 'Ai dyma'r math o berson ydw i mewn gwirionedd?'

Roedd canfyddiad mai ychydig o wahaniaeth oedd o ran *arddull wleidyddol* rhwng dynion a menywod ond bod menywod yn dod â rhinweddau gwahanol i wleidyddiaeth oherwydd eu profiadau sy'n benodol i'w rhyw. Gwelwyd bod arddull wleidyddol yn amrywio yn ôl unigolion neu'n ymwneud â diwyllianau gwahanol y pleidiau gwleidyddol yn hytrach na'u bod yn gysylltiedig â rhywedd er bod rhai o'r farn fod arddull wleidyddol yn dilyn rhyw'r person.

Nid oedd canfyddiad bod yr *amgylchedd gweithio* mewn cynghorau lleol yn gyfeillgar i deuluoedd neu'n wir yn gyfeillgar i unrhyw un mewn cyflogaeth, yn enwedig os oedd yn llawn amser. Gwelid bod hyn yn anodd i ddynion a menywod ond yn arbennig i fenywod. Roedd diffyg ymwybyddiaeth, yn arbennig ymysg cynghorwyr gwrywaidd, fod menywod yn aml yn wynebu rhwystrau arbennig

oherwydd eu cyfrifoldebau domestig a gofal plant.

Roedd cefnogaeth i'r syniad o gynyddu cynrychiolaeth gan fenywod, naill ai er budd cydraddoldeb neu oherwydd bod menywod yn dod â rhinweddau gwahanol i lywodraeth leol, ond roedd gwrthwynebiad cyffredin i gymryd unrhyw gamau cadarnhaol er mwyn cyflawni hyn. Deallid mai 'gwahaniaethu cadarnhaol' oedd camau megis gefeillio a rhestri byrion i fenywod yn unig. Roedd y farn fod menywod nad oedd 'yn ddigon da i'r gwaith' yn cael eu dewis/hethol o ganlyniad i gamau cadarnhaol yn un gyffredin. Roedd y rhan fwyaf o'r cynghorwyr yn tybio mai ar sail teilyngdod roedd dynion yn cael eu dewis ar hyn o bryd. Roedd rhai menywod yn ymwybodol bod dynion yn tanseilio'r egwyddor o ddewis ar sail teilyngdod drwy ddewis dynion eraill yn anffurfiol i ddod yn eu lle pan fyddent yn penderfynu ymddeol.

Roedd diffyg ymwybyddiaeth o rywedd ymysg cynghorwyr ac ychydig iawn o ddealltwriaeth o'r modd y gall materion polisi gael eu rhyweiddio; prin unrhyw un o'r cynghorwyr a nododd eu bod yn ffeminyddion. Yn wahanol i wleidyddiaeth ar lefel Cymru gyfan, mae gwleidyddiaeth leol yn gadarn mewn rhwydweithiau wedi'u rhyweiddio sy'n normaleiddio diwylliant gwleidyddol gwrywol sy'n tueddu i filwrio yn erbyn cyfranogiad menywod ac sy'n aml yn ansensitif i ddiddordebau gwleidyddol menywod.

Y trydydd sector a'r Cynulliad Cenedlaethol – proses gynhwysiant?

Mae angen iddyn nhw (ACau) ddeall y pynciau...ac mae angen i ni ddweud wrthyn nhw, felly mae angen i ni gael y ffordd honno o gydweithio, wir...

(Cynrychiolydd benywaidd o gorff trydydd sector cenedlaethol)

Bwriadwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i fod yn sefydliad cynhwysol sy'n annog cyfranogi a chydweithredu. Mae ymwneud y trydydd sector yn helpu i sicrhau bod datblygiad polisi wedi'i seilio ar brofiadau bywyd go iawn. Gellir annog cyfranogi o'r fath drwy ymgynghori agored a thryloyw a thrwy ariannu cyrff gwirfoddol a chymunedol i'w cynorthwyo wrth hyrwyddo eu barn. Mae'r ymchwil yn canolbwyntio ar dri maes polisi sy'n ymwneud â rhywedd: cam-drin domestig; tlodi plant; a chydaddoldeb, yn arbennig cyflog cyfartal. Mae'n tynnu ar safbwyntiau cynrychiolwyr o gyrff trydydd sector lleol a chenedlaethol sy'n gweithio yn y meysydd hyn, yn ogystal â safbwyntiau Aelodau'r Cynulliad a gweision sifil.

Mae datganoli wedi cynyddu'r ymgysylltu gan gyrff trydydd sector â datblygu polisi.

- o Mae hyn yn digwydd drwy fecanweithiau ffurfiol megis Partneriaeth y Trydydd Sector, cyfarfodydd â gweinidogion, ymgynghoriadau, gweithgorau.
- o Mae mecanweithiau anffurfiol hefyd yn hyrwyddo hyn, gan gynnwys: ymweliadau gan ACau â phrosiectau trydydd sector a chynnal cysylltiadau personol blaenorol ACau â chyrrff neilltuol.

Mae mynediad at weinidogion ac ACau yn cael ei hwyluso gan faint cymharol fach Cymru a'i sefydliadau gwleidyddol cenedlaethol, ac mae ymgysylltu yn broses ddwy ffordd y gall y cyrrff trydydd sector neu'r ACau ei chychwyn.

Fodd bynnag, nid yw pob corff trydydd sector yn ymgysylltu'n effeithiol â datblygu polisi.

Mae nifer o rwystrau i'r ymgysylltu, yn arbennig i gyrff lleol ac ar lawr gwlad:

- o Caiff nifer eu hariannu i ddarparu gwasanaethau'n unig. O ganlyniad nid oes ganddynt amser i ymateb i ymgynghoriadau ac nid oes adnoddau chwaith i hwyluso'u hymgysylltu.
- o Mynegodd rhai ACau bryder bod cyrrff trydydd sector o bosib yn ofni y caiff cyllid ei dynnu'n ôl os ydynt yn beirniadu polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- o Nodwyd y gallai rôl ddeublyg Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, sy'n cynrychioli'r trydydd sector yng Nghymru ac yn gweinyddu ac yn didoli grantiau ariannu, fod yn rhwystr posibl i ymgysylltu'n llawn.

Mae cydraddoldeb rhyw cynrychiolwyr etholedig yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cael effaith ar ymgysylltu gan y trydydd sector, yn arbennig i'r mathau hynny o gyrff sydd wedi'u cynnwys yn y prosiect hwn.

Mae rhagor o ACau sy'n fenywod wedi golygu bod gan ragor o ACau gysylltiadau â chyrrff gwirfoddol sy'n gweithredu ar ran buddiannau menywod.

Byddai rhagor o amrywiaeth ymhlith cynrychiolwyr etholedig yn annog ymgysylltu ag amrywiaeth helaethach o gyrff trydydd sector.

Mae cyrrff trydydd sector cenedlaethol yn ymgysylltu'n egniol â'r rhai sy'n gwneud polisiau. Mae Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn cael ei gadeirio gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am Gyfiawnder Cymdeithasol, ac mae'n cwrdd deirgwaith y flwyddyn. Mae cyrrff trydydd sector hefyd yn gallu cwrdd â'r gweinidog y mae ei bortffolio'n berthnasol i'w hachos mewn cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn, a dylanwadu ar bolisi drwy weithgorau a phaneli arbenigwyr y maen nhw'n cael eu secondio iddynt. Gallant hefyd gwrdd â Gweinidogion ac ACau ar gais. Wrth wneud sylwadau ar fecanweithiau ymgysylltu ffurfiol, dywedodd uwch was sifil yn Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd â phrofiad o gynghori gweinidogion yn y cyfnod cyn datganoli:

...Teimlaf fod rhagor o amrywiaeth o gyngor yn digwydd nawr. Ac mae gweinidogion yn ystyried, wyddoch chi, mae ganddyn nhw eu hymgynghorwyr arbennig, mae ganddyn nhw eu gweision sifil, mae ganddyn nhw hefyd yr holl grwpiau sy'n cael mynediad atyn nhw, ac maen nhw'n agored iawn. Felly dw i ddim yn meddwl y byddai hynny wedi digwydd heb ddatganoli, hynny yw, bod yn agored i wahanol safbwyntiau...

Disgrifiodd menyw sy'n weinidog pa mor effeithiol yw mathau o ymgysylltu anffurfiol hefyd:

... dw i'n credu fy mod i'n defnyddio fy nghysylltiadau â grwpiau menywod yn arbennig dim ond er mwyn gwranddo a dysgu a chael gwybod am yr hyn sy'n digwydd, tystiolaeth, a

hefyd grŵp cyfeirio... eu profiadau a'u gwybodaeth nhw sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi fel gweinidog, lawn cymaint â chael briffio ffurfiol oddi wrth weision sifil...

Fodd bynnag, mae'r sefyllfa mewn cyrff lleol ac ar lawr gwlad yn wahanol iawn, yn bennaf oherwydd diffyg adnoddau er mwyn ymgysylltu. Meddai cynrychiolydd o gorff lleol yn y gymuned i fenywod:

...mewn gwirionedd does gyda ni mo'r gallu i fod yn ymgysylltu'n llawn â'r Cynulliad Cenedlaethol [Cyfwelydd: A ofynnwyd i chi gymryd rhan fel corff gwirfoddol

wrth ddatblygu unrhyw bolisiau?] Naddo, naddo...Dyma'r math o beth yr hofffen ni fod yn gwneud mwy ohono, ond, a dyma beth yw fy swydd i i fod, ond does gyda ni mo'r gallu i wneud hyn ar hyn o bryd...

Mae'r gwahaniaeth o ran lefelau ymgysylltu â datblygu polisiau rhwng cyrff trydydd sector cenedlaethol a lleol wedi cael ei gydnabod yn ddiweddar gan CGGC sy'n dechrau ar ei brosiect 'Lleisiau dros Newid Cymru' / 'Voices for Change Cymru' i annog rhagor o ymgysylltu â chyrrff bychain ac ar lawr gwlad.

Datblygu polisiau ar drais domestig

Ond er enghraifft cam-drin domestig, roedd diddordeb arbennig gan y gweinidog blaenorol yn hyn, mewn gwirionedd achos er nad yw dedfrydu a'r gyfraith wedi'u datganoli, mae'r ffordd rydych chi wir yn ymdrin â, wyddoch chi, delio â dioddefwyr cam-drin domestig wedi'i ddatganoli. Felly, mater o bethau fel tai, gwasanaethau cefnogi, a gwasanaethau cyfreithwyr a'r holl bethau yma yw hi yn y pen draw. Mae'n debyg o ran hynny roedd, wyddoch chi, roedd y gweinidog, roedd hi ei hun yn ymrwymedig iawn.

(Uwch was sifil)

Caiff trais domestig ei ddiffinio fel mater o gyfiawnder troseddol gan lywodraeth y DU ac mae cyfiawnder troseddol yn faes polisi nad yw wedi'i ddatganoli. Fodd bynnag, ymgwymerwyd â rhai mentrau yn y maes polisi hwn. Roedd strategaeth trais domestig Llywodraeth Cynulliad Cymru, a lansiwyd yn 2005, yn benllanw sawl blwyddyn o waith a ddechreuodd pan sefydlwyd y Gweithgor ar Drais Domestig yng Nghymru (bellach y Gweithgor ar Gam-drin Domestig) yn 2002 gan Jane Hutt, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pryd. Edrychodd yr ymchwil ar ddatblygiad polisiau trais domestig yng Nghymru ac a ydynt yn gwneud gwahaniaeth i fywydau menywod.

Mae gwasanaethau wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diweddar drwy ddatblygiadau polisi a gychwynnwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

- Mae'r Swyddfa Gartref wedi cyflwyno llysoedd trais domestig arbenigol ac yn sgil hyn mae ymweliadau â'r llys wedi mynd yn llai bygythiol i fenywod sydd wedi goroesi cam-drin domestig.
- Mae menter arall gan y Swyddfa Gartref, cynadleddau asesu risg aml-asiantaeth (MARACS), wedi cynyddu'r amddiffyniad i'r menywod sydd mewn

perygl o ddiodef cam-drin domestig fwyaf.

- Mae gweithio aml-asiantaeth a phenodi cydlynwyr cam-drin domestig ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr wedi arwain at gydweithredu rhwng asiantaethau cyhoeddus a thrydydd sector a gwasanaethau mwy integredig i ddiodef wyr cam-drin domestig.
- Sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru linell gymorth 24-awr i'r rhai sy'n profi cam-drin domestig, wedi'i rhedeg gan 'Cymorth i Fenywod'.

Mae'r Strategaeth Gymru Gyfan i Fynd i'r Afael â Cham-drin yn y Cartref wedi cynyddu'r arian i wasanaethau cam-drin domestig, gan godi £1.17 M i £3.7M.

Er bod rhai gwelliannau'n codi o'r datblygiadau polisi hyn, mae rhai meysydd allweddol lle mae problemau.

- o Mae rhai awdurdodau lleol wedi dehongli'r dyletswyddau cydraddoldeb i olygu bod rhaid i lochesau lleol i fenywod gynnig gwasanaethau i ddynion hefyd; mae hyn er gwaethaf cydnabyddiaeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fod cam-drin domestig yn 'un o'r ffurfiau mwyaf difrifol ar anghydraddoldeb rhyw'.
- o Mae rhai grwpiau llochesau lleol sy'n cael eu hariannu gan Grant Refeniw Cefnogi Pobl yn fwy diogel yn ariannol, ond mae'r mathau o wasanaethau y gallant eu cyflenwi'n fwy cyfyngedig ac mae llai o ymreolaeth ganddynt wrth ymateb i anghenion eu defnyddwyr gwasanaeth.
- o Mae goblygiadau difrifol o ran dosbarthu adnoddau a chyfiawnder cymdeithasol oherwydd camgydnabod natur wedi'i rhyweiddio cam-drin domestig, gyda menywod yn fwyafrif helaeth y dioddefwyr, ac oherwydd ystadegau camarweiniol sydd wedi dylanwadu ar ddatblygu polisiâu.

Mae Cynllun Cyflenwi Cenedlaethol ar gyfer Cam-drin Domestig (*National Delivery Plan for Domestic Abuse*) llywodraeth y DU yn cwmpasu Cymru a Lloegr. Mae iddo saith amcan i leihau troseddau ac mae ei ddiffiniad o drais domestig yn niwtral o ran rhywedd. Mae Strategaeth Gymru Gyfan yn canolbwyntio ar feysydd polisi sydd wedi'u datganoli megis tai, iechyd ac addysg, ond mae iddi'r un amcanion â chynllun y Swyddfa Gartref.

Nodwyd bod Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn hanfodol o ran cyflenwi Strategaeth Gymru Gyfan. Mae

asiantaethau cam-drin domestig megis grwpiau Cymorth i Fenywod Lleol wedi'u gwahodd i gymryd rhan yn y rhain a hefyd maen nhw wedi'u cynrychioli ar y Gweithgor ar Gam-drin Domestig.

Mae'r ffaith fod y Strategaeth Gymru Gyfan yn bodoli o gwbl, o ystyried y diffyg awdurdod datganoledig yn y maes hwn, yn tystio i effeithiau cydbwysedd rhyw yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, ac i ymroddiad ACau benywaidd allweddol i bwnc cam-drin domestig.

Mae rhai datblygiadau sy'n peri pryder o ran defnyddio ystadegau camarweiniol a diffinio trais domestig yn niwtral o ran rhywedd, ac y mae'r ddau beth yma'n rhoi'r argraff nad oes cysylltiad rhwng trais domestig a rhywedd. Mae gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru a gwefan Prosiect Dyn, gwasanaeth a sefydlwyd i gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig gwrywaidd, yn dyfynnu ffigurau o adroddiad gan y Swyddfa Gartref ym 1999 sef bod un o bob pedair menyw ac un o bob chwe dyn yn profi cam-drin domestig. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys digwyddiadau unwaith yn unig a dangosodd ymchwil ddilynol fod gwallau mawr ynddynt. Oherwydd eu bod yn cael eu defnyddio'n helaeth, ynghyd ag iaith sy'n niwtral o ran rhywedd, rhoddir llai o sylw i berthnasoddd grym wedi'u rhyweiddio fel agwedd hanfodol ar gam-drin domestig ac mae goblygiadau difrifol i hyn o ran dosbarthu adnoddau.

Wrth gwrs rydyn ni'n cydnabod bod cam-drin domestig tuag at ddynion, ac mae pawb yn cydnabod hynny. Mae wedi bod yn anodd iawn gan fod rhai ohonon ni, yn arbennig pobl â rhyw fath o gefndir Cymorth i Fenywod neu wasanaethau sy'n canolbwyntio'n benodol ar fenywod, wedi dweud erioed 'wel, dydy e ddim yn niwtral o ran rhywedd, ydy e?' ac yn amlwg dydy e ddim o ran difrifoldeb a chanran.

(Aelod o Fforwm Cam-drin Domestig lleol)

Goblygiadau polisi

- Mae ein canfyddiadau'n cefnogi'r honiad y gwelir bod cydbwysedd rhyw ymysg cynrychiolwyr gwleidyddol yn cael effaith ar y ffordd y mae gwleidyddau'n digwydd ac ar y materion polisi sy'n cael eu blaenoriaethu.
- Mae gennym hefyd dystiolaeth bod amrywiaeth o gynrychiolwyr gwleidyddol yn hwyluso'r ymgysylltu ag amrediad ehangach o gyrff cymdeithas sifil. Fodd bynnag, canfuwyd gwrthwynebiad ar lefel leol i fesurau cadarnhaol i gynyddu cynrychiolaeth gan fenywod. Awgryma hyn fod angen rhoi ystyriaeth bellach i ffyrdd y gellir cael amrywiaeth ymhlith cynrychiolwyr gwleidyddol.
- Dengys ein hymchwil, er bod ymgysylltu anffurfiol gan y Cynulliad Cenedlaethol â chyrrff sector gwirfoddol yn amlwg ar lefel Cymru gyfan, mae rhwystrau difrifol i ymgysylltu o'r fath ar lefel leol. Mae hyn yn bennaf oherwydd diffyg adnoddau a llyffetheiriau o ran sut defnyddir adnoddau. Er mwyn hwyluso ymgysylltu o'r fath, mae angen ailasesu natur anghenion cyfundrefnau ariannu.
- Mae peth dystiolaeth o'r ymchwil hon fod canlyniadau nas bwriadwyd yn gysylltiedig â'r agenda cydraddoldeb ac, yn enwedig, gyda'r Dyletswydd Cydraddoldeb Rhywiol, a allai gael effaith andwyol ar sefydlogrwydd a chynaliadwyedd darpariaeth y sector gwirfoddol i fenywod a phlant sy'n cael eu bygwth gan drais domestig. Dylid ymwilio i hyn fel mater o frys.
- Hefyd daethom o hyd i ddefnydd amhriodol o ystadegau swyddogol ac iaith niwtral o ran rhywedd mewn perthynas â thrais domestig. Mae'n bwysig fod asiantaethau statudol a gwirfoddol, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn seilio eu polisiau a'r adnoddau a ddyrennir ar wybodaeth nad yw'n tywyllu natur wedi'i rhyweiddio trais domestig.

Nod yr astudiaeth oedd

- archwilio'r cyfraniad a wnaed gan aelodau benywaidd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddatblygu polisi ac i allu'r Cynulliad i ymateb i fentrau lles sy'n seiliedig ar rywedd;
- adnabod y ffyrdd y mae materion gwleidyddol yn cael eu diffinio a'u deall ac effaith hyn ar wleidyddiaeth rhywedd;
- ymchwilio i ddiwylliant gwleidyddol a sefydliadol y Cynulliad Cenedlaethol, a'i berthynas â diwylliant gwleidyddol a sefydliadol llywodraeth leol yng Nghymru;
- archwilio sut mae cyrff trydydd sector yn cael eu heffeithio gan wahanol gydbwysedd rhyw'r Cynulliad Cenedlaethol a llywodraeth leol, a phwysigrwydd rhywedd yn eu gwaith.

Dulliau

Gwnaed yr ymchwil rhwng 2004 a 2008. Y prif ddulliau oedd cyfweiliadau ansoddol helaeth ar lefel genedlaethol a thair astudiaeth achos mewn ardaloedd awdurdodau lleol, dadansoddi dogfennaeth ac ymchwil arsylwadol. Mae'r canfyddiadau a nodir yma'n tynnu ar::

- gyfweiliadau â 31 o'r 60 Aelod Cynulliad oedd yn eistedd yn ystod ail dymor y Cynulliad Cenedlaethol (2003-07);
- pedwar cyfweiliad â gweision sifil Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- cyfweiliadau â 27 cynghorydd ac uwch-swyddog o dair ardal awdurdod lleol. Roedd dau yn awdurdod trefol/gwledig â chymysgedd cymdeithasol ac roedd un yn awdurdod difreintiedig ôl-ddiwydiannol yn y cymoedd;
- cyfweiliadau â 24 cynrychiolydd o gyrff trydydd sector lleol ac â 6 swyddog o gyrff trydydd sector ac undebau llafur cenedlaethol;
- ugain sesiwn arsylwadol mewn cynadleddau pleidiau gwleidyddol, cyfarfodydd cynghorau lleol a chyfarfodydd llawn a chyfarfodydd phwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- dadansoddiad o feysydd polisi sy'n ymwneud â rhywedd drwy gyhoeddiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Cofnod a Chofnodion o gyfarfodydd pwyllgorau a gweithgorau.

Ionawr 2009

Ariannwyd yr ymchwil hon gan Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) (RES-000-23-1185). Y tîm ymchwil oedd Nickie Charles (Prif Ymchwilydd), Prifysgol Warwick, Charlotte Aull Davies a Stephanie Jones (Cyd-ymchwilwyr), Prifysgol Abertawe.

Argreffir ar bapur o goedwigoedd cynaliadwy cofrestredig gan Wasg Morgannwg, Uned 27, Parc Busnes Mynachlog Nedd, Castell-nedd, SA10 7DR